# Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar 8fed Mai 2025 yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron

Yn bresennol: Y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans, Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Denfer Morgan (Clerc).

**274 Ethol Cadeirydd**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Robert Davies yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn bwrdeistrefol, 2025-26.

**275 Datganiad o Dderbyn Swydd y Cadeirydd**

Arwyddodd y Cadeirydd newydd etholedig y Datganiad o Dderbyn Swydd Cadeirydd.

**276 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies a Gary Evans am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**277 Ethol Is-gadeirydd**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Nigel Davies yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer ei ail flwyddyn bwrdeistrefol, 2025-26.

**278 Datganiad o Dderbyn Swydd yr Is-Gadeirydd**

Yr Is-gadeirydd newydd etholedig i arwyddo'r Datganiad o Dderbyn Swydd Is-Gadeirydd yn y cyfarfod nesaf.

**279 Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol 9fed Mai 2024**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 9fed Mai 2024 fel rhai cywir.

**280 Penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer Cyfrifon Blynyddol 2024/2025**

Cytunwyd gofyn i Mr Gwyn Jones fod yn Archwilydd Mewnol ar gyfer archwilio Cyfrifon Blynyddol 2024-25.

.

**281 Cynllun Taliadau Aelodau ar gyfer 2025-26**

Rhoddwyd ystyriaeth i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2025 a **PHENDERFYNWYD**

mabwysiadu'r Cynllun canlynol ar gyfer 2025-26:

*Lwfansau a gynhwysir yn y Cynllun*
Costau Gofal
Taliad Costau Ychwanegol / Taliad Penodol am Nwyddau Traul
Costau Teithio a Chynhaliaeth
Arhosiad Dros Nos

*Lwfansau na chynhwysir yn y Cynllun*
Uwch Rôl
Maer neu Gadeirydd
Dirprwy Faer neu Is-gadeirydd
Colled Ariannol
Lwfans presenoldeb

Daeth y Cyfarfod i ben am 7:45 y.h.

**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 8fed Mai 2025 am 7.45 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Cynghorydd Sir Marc Davies
Clerc, Denfer Morgan

**282 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Gary Evans ac Eirlys James-Evans am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**283 Personol**

Estynwyd llongyfarchiadau'r Aelodau i Iwan Thomas ar ennill Cadair Eisteddfod Bryngwenith.

**284 Heddlu Dyfed-Powys**

Croesawyd PCSO Charlotte Carter i'r cyfarfod a chafwyd y gwybodaeth ganlynol ganddi hi.

Bu dau gwrthdrawiad traffig ar ffyrdd yn ardal Cilcennin ond ni chafwyd unrhyw anafiadau personol.

Roedd y parcio anghyfrifol ar y ffordd yng nghyffiniau Gerddi Tyglyn yn cael ei fonitro mewn Ymgynghoriad gyda'r Cyngor Sir fel yr Awdurdod Ffyrdd Lleol.

Dywedodd PCSO Carter mai hwn oedd ei chyfarfod olaf o'r Cyngor gan y byddai'n dechrau hyfforddiant i fod yn Heddwas. Diolchwyd i Charlotte am ei chyfraniad cydwybodol ac amhrisiadwy i'r gymuned ac estynwyd dymuniadau gorau'r Cyngor iddi hi at y dyfodol.

**285 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 13eg Mawrth 2025.

**286 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD**

**i)** talu'r canlynol:

Archwilio Cymru (ffi archwiliad 2022-23) - £352
Archwilio Cymru (Ffi Archwiliad 2023-24) - £200
Neuadd Bentref Ciliau Aeron - £140

**ii)** nodi derbyn taliad cyntaf y Praesept yn y swm o £2,000

**287 Rhandir Turbery, Cilcennin**

Rhoddwyd ystyriaeth i lythyr dyddiedig 8fed Ebrill oddi wrth Savills ynghylch cynnyddu ffi y trwydded blynyddol o £50 i £75 ar gyfer rhandir 'Turbery' yn dilyn adolygiad o'r rent a wnaed yn unol â Rhan 2 y Brydles.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** nad oedd angen parhau gyda'r brydles gan fod y llwybr cyhoeddus sy'n rhedeg drwy'r rhandir wedi'i gofrestru.

**288 Unrhyw Fater Arall**

a) cytunwyd awdurdodi'r Clerc i ddechrau trafod y posibilrwydd o symud cyfrifon banc y Cyngor i Unity Trust Bank.

b) gofyn i'r Cyngor Sir weithredu ar y canlynol;

- dad-blocio dau ddraen mewn lleoliad a nodwyd ar yr A482
- gosod arwydd ar y groesfan i ddweud fod y ffordd sy'n arwain at y Bont Newydd yn culhau
- gosod arosfan 'baner a pholyn' ar gyffordd Tŷ Mawr.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:40pm